

Annwyl glerc y Cyngor Cymuned

Mae Arweinydd y clwb wedi codi y pryderon yma hefo'r Cynghorydd Siân Gwenllïan nol yn mis Ionawr ac wedi cyfarfod hefo Siân er mwyn taro syniadau i gynyddu aelodau. Un syniad oedd i'r aelodau greu tudalen Facebook ac i wahodd Siân i'r tudalen fyddai wedyn wedi golygu bod y 600 o bobl sydd ganddi yn ei dilyn yn gweld y dudalen yma. Fodd bynnag ar yr amser roedd y Gwasanaeth yn creu tudalen eu hunain a dim eisiau i glybiau unigol wneud hyn. Byddwn yn edrych ar hyn ar gyfer y tymor nesaf.

Ar ddechrau pob tymor mae'r arweinydd yn cysylltu â phenaethiaid ysgolion y cylch i ofyn iddynt ddweud bod y clybiau ar agor. Mae yn gofyn iddynt ledaenu'r neges i bobl ifanc blwyddyn 8 i fyny ond yn anffodus o siarad efo pobl ifanc Felinheli tydyn nhw ddim yn cael y neges bob amser. Mae hysbyseb o'r clwb ar wefan pentref Felinheli ac mae'r arweinydd yn cysylltu ar Herald bob wythnos gyda hysbyseb i'r 'community news'. Ceisiodd roi hysbyseb yn llyfryn Newyddion Gwynedd mis Awst 2014. Ceisiwn wneud hyn eto ar gyfer y tymor nesaf. Ers rhai blynnyddoedd mae wedi bod yn gofyn a oes modd cael hysbysfwrdd parhaol yn y neuadd i gael rhoi posteri a rhaglenni arno. Wythnos diwethaf mae aelod o'r Cyngor Cymuned wedi ei hysbysu fod hwn ar y ffordd. Credaf fod y staff yn gwneud cymaint a sydd bosib i hyrwyddo y clwb.

Pob mis Medi a mis Ionawr mae'r staff yn cynnal sesiwn drafodaeth efo'r bobl ifanc er mwyn llenwi rhaglen. Rhaglen y bobl ifanc yw hi. Enghreifftiau o sesiynnau sydd wedi eu cynnal - Diogelwch ar y ffordd, Addysg Rhyw, Coginio, YOTS, Ffitrwydd, Bwlio a Diogelwch ar y Rhyngwyd. Yr aelodau sydd wedi gofyn amdanynt. Mae y taflenni nosweithiol yn dweud wrthym bod yr aelodau sydd yn mynychu yn hapus gyda'r sesiynnau. Credaf petai pobl ifanc y Felinheli yn cael rhyddid i wneud unrhywbeth yna mai dewis pel droed am 2 awr fyddai eu dewis. Erbyn hyn mae nhw yn cael eu pel droed am yr hanner awr olaf o'r noson.

Mae yr arweinydd wedi cael sgwrs gyda pobl ifanc Y Felinheli neithiwr i geisio darganfod beth sydd yn mynd ymlaen yn y pentref ar nos Fawrth rhag ofn bod yna wrthdrawiad a diddordebau eraill. Canlyniad y sgwrs oedd bod yna hyfforddiant pêl-droed ymlaen ar nos Fawrth a nos Fercher i hogiau a genethod sydd yn digwydd bod o gwmpas yr un amser a'r clwb. Fel y gwyddoch roedd

angen newid amser y clwb ar nos Fawrth am gyfnod blwyddyn diweddaf gan nad yr oedd yr aelodau yn gallu mynychu oherwydd yr hyfforddiant yma ond pan ddaru hwn ddarfod mi aeth yr amser yn nol. Cawn drafod y posibilrwydd o newid noson yn ystod y misoedd nesaf.

Ddechrau Medi byddwn yn mynd a 'flyers' o gwmpas pob tŷ yn y pentref. Byddwn wedi trafod rhaglen ddrafft ar gyfer Medi cyn diwedd Ebrill a bydd hwn yn cael ei ddsbarthu gyda'r 'flyer'. Byddwn hefyd yn cysylltu hefo'r ysgolion.

Mae ganddom pryderon bod y niferoedd yn isel ac mae'r arweinyddion wedi gwneud eu gorau i hyrwyddo y clwb ac i gynnig rhaglen gynhwysfawr sydd yn ateb gofynion pobl ifanc Y Felinheli ac i ateb targedau Y Gwasanaeth Ieuenctid. Rydym o'r farn fod pethau wedi gwella a bod ganddom hefyd le i wella a byddwn yn gweithio tuag at ddenu mwy o aelodau yn y tymor newydd.

Mae croeso i chi ymweld a'r clwb i drafod eich pryderon hefo'r arweinyddion.

Yn gywir

Nia

Nia Morris

Rheolwr Gwasanaeth
Ieuenctid
Youth Service Manager

01286 679 190

-----Original
Message-----
From: clercfelinheli@aol.com
[mailto:clercfelinheli@aol.com]
Sent: Mon 02/03/2015 14:28
To: Morris Nia
Vaughan (ECON A CMND)
Subject: Clwb Ieuenctid y Felinheli

Annwyl Ms
Morris,

Mae Cadeirydd ac aelodau Cyngor Cymuned y Felinheli yn awyddus i adael i chi wybod ynglyn a'u pryder yn y nifer sydd yn mynychu'r clwb. Mae'r niferoedd wedi gostwng yn ddiweddar. Cwestynir a yw'r gweithgareddau a gyflwynir yn ddigonol i gadw diddordeb yr ieuenctid.

Hoffai'r Cyngor
dderbyn eich sylwadau ar y mater.

Yn gywir,

Heather Jones,

Clerc
Y
Cyngor.